



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 557 (Cy. 129)

2020 No. 557 (W. 129)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (Wales) (Amendment)
(No. 5) Regulations 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys—

- (a) darpariaethau sy'n galluogi priodas neu bartneriaeth sifil pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch angheuol;
- (b) llacio'r gofyniad i aros gartref oni bai bod gennych esgus rhesymol sy'n galluogi pobl i fod yn yr awyr agored at unrhyw ddiben o fewn eu hardal leol;
- (c) llacio'r cyfyngiad ar ymgynnull sy'n caniatáu i bersonau o ddim mwy na dwy aelwyd ymgynnull yn yr awyr agored.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Regulation 2 of these Regulations amends the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020 (the "principal Regulations").

These amendments include—

- (a) provisions enabling a marriage or civil partnership where a party to the marriage or civil partnership is terminally ill;
- (b) a relaxation to the requirement to stay at home unless you have a reasonable excuse to enable people to be outside for any purpose within their local area;
- (c) a relaxation to the prohibition on gathering which allows persons from no more than two households to gather outdoors.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2020 Rhif 557 (Cy. 129)

2020 No. 557 (W. 129)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (Wales) (Amendment)
(No. 5) Regulations 2020**

Cymeradwywyd gan Senedd Cymru

Approved by Senedd Cymru

Gwnaed 29 Mai 2020

Made 29 May 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 12pm ar 1 Mehefin 2020*

*Laid before Senedd
Cymru at 12pm on 1 June 2020*

Yn dod i rym am 4pm ar 1 Mehefin 2020

Coming into force at 4pm on 1 June 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

The Welsh Ministers consider that the amendments made by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 a deuant i rym am 4pm ar 1 Mehefin 2020.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(2)—

(a) o flaen is-baragraff (a) mewnosoder—

“(aa) i weinyddu priodas neu ffurfio partneriaeth sifil, pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwech angheuol ac na ddisgwylir iddo wella,”;

(b) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

“(b) i ddarledu (boed dros y rhyngwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu)—

(i) gweithred o addoli (heb gynulleidfa);

(ii) gweinyddu priodas neu ffurfio partneriaeth sifil a ganiateir gan is-baragraff (aa);

(iii) angladd, neu ”.

(3) Yn lle rheoliad 8 rhodder—

“Cyfyngiadau ar symud a bod o dan do yn ystod cyfnod yr argyfwng

8.—(1) Yn ystod cyfnod yr argyfwng, ni chaiff neb, heb esgus rhesymol—

(a) gadael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'n byw neu aros i ffwrdd o'r ardal honno;

(b) bod o dan do gyda pherson arall nad yw—

(i) yn aelod o'i aelwyd,

(ii) yn ofalwr iddo, neu

(iii) yn berson y mae'n darparu gofal iddo.

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2020 and they come into force at 4pm on 1 June 2020.

Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 7(2)—

(a) before sub-paragraph (a) insert—

“(aa) for the solemnization of a marriage or formation of a civil partnership, where a party to the marriage or civil partnership is seriously ill and not expected to recover,”;

(b) for sub-paragraph (b) substitute—

“(b) to broadcast (whether over the internet or as part of a radio or television broadcast)—

(i) an act of worship (without a congregation);

(ii) a solemnization of a marriage or formation of a civil partnership allowed by sub-paragraph (aa);

(iii) a funeral, or”.

(3) For regulation 8 substitute—

“Restrictions on movement and being indoors during the emergency period

8.—(1) During the emergency period, no person may, without reasonable excuse—

(a) leave the area local to the place where they are living or remain away from that area;

(b) be indoors with another person who is not—

(i) a member of their household,

(ii) their carer, or

(iii) a person they are providing care to.

(1) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/399 (Cy. 88), O.S. 2020/452 (Cy. 102), O.S. 2020/497 (Cy. 118) ac O.S. 2020/529 (Cy. 124).

(1) S.I. 2020/353 (W. 80) as amended by S.I. 2020/399 (W. 88), S.I. 2020/452 (W. 102), S.I. 2020/497 (W. 118) and S.I. 2020/529 (W. 124).

(2) Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol (ond gweler paragraff (3))—

- (a) cael cyflenwadau oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1 gan gynnwys—
 - (i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini yn yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid yn yr aelwyd) neu ar gyfer personau hygllwyf;
 - (ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd, neu aelwyd person hygllwyf;
- (b) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 38 neu 39 o Atodlen 1 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;
- (c) ceisio cynhorthwy meddygol, gan gynnwys cael gafael ar unrhyw un o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 42 o Atodlen 1 neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (d) darparu neu gael gofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal personol perthnasol, o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hygllwyf 2006(), lle y mae'r person sy'n derbyn y gofal yn berson hygllwyf;
- (e) darparu neu gael cynhorthwy brys;
- (f) rhoi gwaed;
- (g) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol (ond gweler hefyd reoliad 8A);
- (h) galluogi i waith gael ei wneud mewn unrhyw fangre (ond gweler hefyd reoliad 8A);
- (i) mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil, pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch angheuol ac na ddisgwylir iddo wella—

(2) A reasonable excuse includes the need to do the following (but see paragraph (3))—

- (a) obtain supplies from any business or service listed in Part 4 of Schedule 1 including—
 - (i) food and medical supplies for those in the same household (including animals in the household) or for vulnerable persons;
 - (ii) supplies for the essential upkeep, maintenance and functioning of the household, or the household of a vulnerable person;
- (b) obtain money from or deposit money with any business or service listed in paragraph 38 or 39 of Schedule 1;
- (c) seek medical assistance, including accessing any of the services referred to in paragraph 42 of Schedule 1 or accessing veterinary services;
- (d) provide or receive care or assistance, including relevant personal care, within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006(1), where the person receiving the care is a vulnerable person;
- (e) provide or receive emergency assistance;
- (f) donate blood;
- (g) work or provide voluntary or charitable services (but see also regulation 8A);
- (h) enable work to be undertaken at any premises (but see also regulation 8A);
- (i) attend a solemnization of a marriage or formation of a civil partnership, where a party to the marriage or civil partnership is seriously ill and not expected to recover—

(1) 2006 c. 47. Sub-paragraph (3B) was substituted, with sub-paragraphs (1), (3) and (3A) to (3E) for sub-paragraphs (1) to (3) by s. 66(2) of the Protection of Freedoms Act 2012 (c. 9)

- (i) fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,
 - (ii) os caiff ei wahodd i fynychu, neu
 - (iii) fel gofawr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil.
- (j) mynd i angladd—
- (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
 - (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
 - (iii) fel gofawr person sy'n mynd i'r angladd;
- (k) ymweld â mynwent, claddfa neu ardd goffa i dalu teyrnged i berson ymadawedig;
- (l) bodloni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (m) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol neu gael y gwasanaethau hynny, gan gynnwys —
- (i) gofal plant neu wasanaethau addysgol (pan fo'r rhain yn dal i fod ar gael i blentyn y mae'r person yn rhiant mewn perthynas ag ef, neu y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto, neu ofal drosto);
 - (ii) gwasanaethau cymdeithasol;
 - (iii) gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;
 - (iv) gwasanaethau a ddarperir i ddiodefwyr (megis diodefwyr trosedd neu drais domestig);
- (n) ymweld â llyfrgell;
- (o) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw yn yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (i) as a party to the marriage or civil partnership,
 - (ii) if invited to attend, or
 - (iii) as the carer of a person attending.
- (j) attend a funeral—
- (i) as a person responsible for arranging the funeral,
 - (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
 - (iii) as the carer of a person attending;
- (k) visit a cemetery, burial ground or garden of remembrance to pay respects to a deceased person;
- (l) meet a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings;
- (m) access or receive critical public services, including—
- (i) childcare or educational services (where these are still available to a child in relation to whom the person is the parent, or has parental responsibility for, or has care of);
 - (ii) social services;
 - (iii) services provided by the Department for Work and Pensions;
 - (iv) services provided to victims (such as victims of crime or domestic violence);
- (n) visit a library;
- (o) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continue existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;

- (p) yn achos gweinidog yr efengyl neu arweinydd addoli, mynd i'w fan addoli;
- (q) symud tŷ pan na fo modd gohirio'r symud;
- (r) osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.

(3) At ddibenion paragraff (1)(a), nid yw'n esgus rhesymol i berson adael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'r person yn byw er mwyn gwneud rhywbeth, neu aros i ffwrdd o'r ardal er mwyn gwneud rhywbeth, os byddai'n rhesymol ymarferol iddo wneud y peth hwnnw o fewn yr ardal.

(4) Nid yw paragraff (1)(a) yn gymwys i berson sy'n gwneud ymarfer corff, pan fo'r ymarfer corff yn dechrau ac yn gorffen yn y man lle y mae'r person yn byw.

(5) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw berson sy'n ddigartref'

(4) Ar ôl rheoliad 8 newydd mewnosoder—

“Gofyniad i barhau i weithio gartref pan fo'n ymarferol

8A.—(1) Yn ystod cyfnod yr argyfwng, o dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) ni chaiff unrhyw berson adael y man lle y mae'n byw, neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw, at ddibenion gwaith neu i ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol.

(2) Yr amgylchiadau yw ei bod yn rhesymol ymarferol i'r person weithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol o'r man lle y mae'n byw.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, mae'r man lle y mae person yn byw yn cynnwys y fangre lle y mae'n byw ynghyd ag unrhyw ardd, iard, tramwyfa, gris, garej, tŷ allan neu unrhyw atodyn i fangre o'r fath.”

(5) Ar ôl rheoliad newydd 8A mewnosoder—

“Cyfyngiadau ar ymgynnull â phersonau eraill

8B. Yn ystod cyfnod yr argyfwng, ni chaiff unrhyw berson gymryd rhan mewn cynulliad yn yr awyr agored ac eithrio—

- (a) pan fo'r personau sy'n ymgynnull yn aelodau o ddim mwy na dwy aelwyd,

- (p) in the case of a minister of religion or worship leader, go to their place of worship;

- (q) move house where the move cannot be postponed;

- (r) avoid injury or illness or escape a risk of harm.

(3) For the purposes of paragraph (1)(a), it is not a reasonable excuse for a person to leave the area local to the place where the person is living to do something, or remain away from the area to do something, if it would be reasonably practicable for them to do that thing within the area.

(4) Paragraph (1)(a) does not apply to a person who is exercising, but only where the exercise starts and finishes at the place where the person is living.

(5) Paragraph (1) does not apply to a person who is homeless.”

(4) After new regulation 8 insert—

“Requirement to continue to work from home where practicable

8A.—(1) During the emergency period, in the circumstances referred to in paragraph (2) no person may leave the place where they are living, or remain away from that place, for the purposes of work or to provide voluntary or charitable services.

(2) The circumstances are that it is reasonably practicable for the person to work or to provide voluntary or charitable services from the place where they are living.

(3) For the purposes of this regulation, the place where a person is living includes the premises where they live together with any garden, yard, passage, stair, garage, outhouse or other appurtenance of such premises.”

(5) After new regulation 8A insert—

“Restrictions on gathering with other persons

8B. During the emergency period no person may participate in a gathering outdoors except—

- (a) where the persons gathering are members of no more than two households,

- (b) pan fo'r cynulliad yn hanfodol at ddibenion gwaith,
- (c) i fynd i angladd, neu
- (d) pan fo'r cynulliad yn angenrheidiol—
 - (i) i hwyluso symud tŷ,
 - (ii) i ddarparu gofal neu gynhorthwy i berson hyglwyf, yn cynnwys gofal personol perthnasol o fewn ystyr “relevant personal care” ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006,
 - (iii) i ddarparu cynhorthwy brys i unrhyw berson, neu
 - (iv) i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol, neu gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol.”

(6) Yn rheoliad 10—

- (a) ym mharagraff (2)—
 - (i) yn y geiriau ar y dechrau, yn lle “torri’r gofyniad yn 8(1)” rhodder “torri gofyniad yn rheoliad 8(1) neu 8A”;
 - (ii) yn is-baragraff (a), ar y diwedd mewnosoder “(os nad yw P yno eisoes)”;
 - (iii) yn is-baragraff (b), ar y diwedd mewnosoder “(os nad yw P yno eisoes)”;
- (b) yn y geiriau ar ddechrau paragraff (7)—
 - (i) yn lle “tri neu ragor o bobl” rhodder “pobl”;
 - (ii) yn lle “8(5)” rhodder “8B”;
- (c) yn y geiriau ar ddechrau paragraff (8A), yn lle “8(5)” rhodder “8B”.

(7) Yn rheoliad 12(1)—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “8(5)” rhodder “8A, 8B”;
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “torri’r gofyniad yn rheoliad 8(1)” rhodder “torri gofyniad yn rheoliad 8(1)”.

Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol

3. Mae rheoliadau 12 a 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai’r diwygiadau a nodir yn rheoliad 2 wedi eu gwneud.

- (b) where the gathering is essential for work purposes,
- (c) to attend a funeral, or
- (d) where the gathering is necessary—
 - (i) to facilitate a house move,
 - (ii) to provide care or assistance to a vulnerable person, including relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006,
 - (iii) to provide emergency assistance to any person, or
 - (iv) to participate in legal proceedings, or fulfil a legal obligation.”

(6) In regulation 10—

- (a) in paragraph (2)—
 - (i) in the words at the beginning, for “the requirement in regulation 8(1)” substitute “a requirement in regulation 8(1) or 8A”;
 - (ii) in sub-paragraph (a), at the end insert “(if P is not already there)”;
 - (iii) in sub-paragraph (b), at the end insert “(if P is not already there)”;
- (b) in the words at the beginning of paragraph (7)—
 - (i) omit “three or more”;
 - (ii) for “8(5)” substitute “8B”;
- (c) in the words at the beginning of paragraph (8A), for “8(5)” substitute “8B”.

(7) In regulation 12(1)—

- (a) in sub-paragraph (a), for “8(5)” substitute “8A, 8B”;
- (b) in sub-paragraph (b), for “the requirement in regulation 8(1)” substitute “a requirement in regulation 8(1)”.

Savings for offences and penalties in relation to prior acts

3. Regulations 12 and 13 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020 continue to have effect in relation to any offence committed, or reasonably believed to have been committed, before these Regulations came into force as if the amendments set out in regulation 2 had not been made.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
29 May 2020

©[©]Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

First Minister, one of the Welsh Ministers
29 May 2020

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W202009301002 10/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/557>

ISBN 978-0-348-11362-4



9 780348 113624